


# TROSGLWYDDO MARCIAU GAN BLACKBOARD I AStRA

Mae'r offeryn trosglwyddo ar gael o dan **Offer y Cwrs > AStRA::Map Columns**. Os na allwch weld hyn ar y ddewislen Offer y Cwrs, bydd angen i chi ei alluogi.

## GALLUOGI'R OFFERYN TROSGLWYDDO

Dim ond unwaith y mae angen gwneud hyn i bob modiwl.

- Cliciwch **Addasu > Argaeledd yr Offer**
- Chwiliwch am **AStRA::Sync** a thicio'r golofn **Ar gael**

Offer 	Ar gael
ABGM Tool	<input type="checkbox"/>
Adolygu Statws	<input checked="" type="checkbox"/>
Adroddiadau SCORM	<input checked="" type="checkbox"/>
ALEKS	<input type="checkbox"/>
Ally	<input checked="" type="checkbox"/>
Ardal Offer	<input checked="" type="checkbox"/>
Ardal Offer	<input type="checkbox"/>
Arolwg	<input type="checkbox"/>
Aseiniad	<input type="checkbox"/>
AStRA::Sync	<input checked="" type="checkbox"/>

- Cliciwch **Submit**

## MAPIO OFFER Y CANOLFAN RADDAU (GRADE CENTRE)

Gellir mapio'r colofnau ar unrhyw adeg ar ôl i'ch colofnau Canolfan Raddau (Grade Centre) gael eu creu. Ar gyfer llawer o offer Blackboard mae'r colofnau'n cael eu creu'n awtomatig (er enghraifft wrth i chi osod pwyntiau cyflwyno Turnitin). Ar gyfer mathau eraill o asesiadau, efallai y bydd angen i chi greu eich colofnau eich hun.

- Cliciwch **Offer y Cwrs > AStRA::Map Columns**

## ▼ Offer y Cwrs

AStRA::Map Columns

Anfon Neges E-bost

Blogiau

Calendr y Cwrs

Cyflawniadau

- Fe welwch restr o asesiadau'r modiwl hwn sydd ar AStRA a rhestr o golofnau'r Canolfan Raddau.

## Cysylltu'r golofn Canolfan Raddau Blackboard ag Aseiad AStRA

### CYSYLLTU'R GOLOFN CANOLFAN RADDAU BLACKBOARD AG ASESIAD AStRA

#### Aseidiadau o AStRA:Introduction to

	Teitl yr Aseiad			
AStRA	written examination Semester Exam	1500 word essay Semester Assessment	written examination Supplementary Exam	1500 word essay Supplementary Assessment
Blackboard				
Trosglwyddo				

#### Aseiniadau o Ganolfan Raddau Blackboard

Dangos colofnau di-aseiniad

Lluso'r golofn Canolfan Raddau i'r aseiniad AStRA!

+ Alternative Assessment

- Cliciwch ar y llygoden a'i dal dros y groes fach nesaf at golofn y Canolfan Raddau a llusgwch hi i'r golofn briodol yn y tabl.
- Cliciwch **Cadw**

## NEWID Y MAPIO

Os oes angen i chi symud colofn ar ôl iddi gael ei mapio, cliciwch a llusgwch y groes fach. Sylwer mai dim ond os nad yw'r marciau wedi'u trosglwyddo y gallwch symud colofn. Bydd y groes fach yn diflannu os yw'r golofn eisoes wedi'i throsglwyddo ac felly ni fydd modd ei symud

#### Assessments from AStRA:Brain, Behaviour and Cognition (2017-18) (PS11220\_AB0\_2017-18)

	Assessment Title			
AStRA	written examination Semester Exam	1 x essay 1500 words Semester Assessment	written examination Supplementary Exam	1 x essay 1500 words Supplementary Assessment
Blackboard			+ Calculated mark	testing something 14/12
Transfer			Transfer	Transfer

Previously transferred, can't be moved.

Not yet transferred, can be moved

Bydd colofn Canolfan Raddau sydd wedi'i symud yn troi'n goch.

## Assessments from AStRA:Brain, Behaviour and Cognition (2017-18) (PS11220\_AB0\_2017-18)

	Assessment Title			
AStRA	written examination Semester Exam	1 x essay 1500 words Semester Assessment	written examination Supplementary Exam	1 x essay 1500 words Supplementary Assessment
Blackboard		+ Calculated mark		testing something 14/12
Transfer				Transfer

Button gone, save must be pressed first.

Ar ôl symud colofn gwasgwch **Cadw** eto a bydd y botwm **Transfer** yn ailymddangos

Drwy glicio ar y botwm **Show non-assignment columns** fe welwch unrhyw golofnau rydych wedi'u creu eich hun (e.e. colofnau cyfansymiau, colofnau wedi'u cyfrifo).

### MODIWLAU CYFUNOL (MODIWLAU RHIANT-PLENTYN)


Os ydych yn gweithio gyda modiwl rhiant-plentyn/cyfunol, fe welwch dabl ar gyfer pob modiwl. Awgrymwn eich bod yn gosod pwynt cyflwyno ar wahân i bob modiwl plentyn ac yna'n mapio'r rhain ym mhob tabl.

### DILEU HEN GOLOFNAU

Weithiau gall colofnau Canolfan Raddau ar gyfer aseiniadau o flynyddoedd blaenorol ymddangos yn y Canolfan Raddau ac felly ar sgrin fapio AStRA. Efallai y bydd enwau rhai o'r colofnau hen a newydd yr un peth neu'n debyg, a gall hynny achosi anawsterau yn y broses fapio.

Os felly, fe ddylai opsiwn ychwanegol i ddileu colofnau hen aseiniadau (rhai sydd heb bwynt cyflwyno mwyach) o'r Canolfan Raddau ymddangos ar dudalen fapio AStRA.

1. Ticiwch y blwch **'Delete these assignments'** > cliciwch **'Save'**.
2. Ewch i'r **Canolfan Raddau Lawna** chlicio ar y saeth lwyd nesaf at y golofn rydych am ei dileu > cliciwch **'Dileu'r Golofn'** (dim ond ar gyfer colofnau sydd heb bwynt cyflwyno y mae'r opsiwn hwn yn ymddangos felly peidiwch â phoeni am ddileu colofn aseiniad cyfredol).



## TROSGLWYDDO MARCIAU

Pan fyddwch yn barod i drosglwyddo'r marciau, gwagwch y botwm **Transfer**

	Assessment Title
AStRA	Written Essay Semester Assessment
Blackboard	✚ Essay
Transfer	Transfer

Fe welwch neges ar frig y dudalen yn dweud wrthyich bod y marciau wedi'u trosglwyddo.

Yna gallwch weld a ydynt yn ymddangos yn gywir drwy fewngofnodi i AStRA a chwilio am adroddiadau STF08. Mae modd newid marciau yn AStRA os oes angen.

Os oes angen i chi drosglwyddo marciau ychwanegol, gwasgwch y botwm **Transfer** eto.

## CREU COLOFNAU YN Y CANOLFAN RADDAU

Mae rhestr o gydrannau ar sgrin fapio AStRA yn cael ei bwydo o'r Canolfan Raddau Llawn. Weithiau, efallai y bydd angen i chi wneud newidiadau i'r Canolfan Raddau cyn mapio.

## CYDRANNAU SY’N CYNWYS MWY NAG UN ELFEN

Os oes cydran yn cynnwys mwy nag un elfen, er enghraifft os yw 20% o’r marc cyfan yn cynnwys 4 prawf byr, pob un â cholofn ar wahân yn y Canolfan Raddau, bydd angen i chi greu **Colofn Gyfrifedig** yn y Canolfan Raddau.

- Ewch i **Canolfa Raddau > Canolfan Raddau Lawn> Creu Colofn Gyfrifedig > Colofn Bwysol**



- Rhowch enw i’r golofn ac o dan **Prif Arddangosiad** dewiswch **Canran**
- Yn **Dewis Colofnau** > > dewiswch bob colofn ar gyfer yr un gydran a gwasgu’r saeth.

### DEWIS COLOFNAU

*Dewiswch y colofnau a’r categorïau i’w cynnwys yn y radd bwysol hon ac yna gosodwch y canrannau pwysoli.*

I’w cynnwys yn y Radd Wedi’i Phwysoli

A screenshot of a web form titled 'DEWIS COLOFNAU'. The form is divided into two main sections. On the left, there are two dropdown menus. The top one is labeled 'Colofnau i’w Dewis:' and contains the following items: 'Cyfanswm Pwysol', 'Cyfanswm', 'PS11420 coursework essay', and 'PS11420 Alternative Assessment Jan 2018 Subtr'. Below it is a button labeled 'Gwybodaeth am y Golofn'. The bottom dropdown menu is labeled 'Categoriâu i’w Dewis:' and contains: 'Aseiniad', 'Arolwg', 'Prawf', 'Trafodaeth', 'Bleg', 'Dyddlyfr', and 'Hunanasesu ac Aseu Cyfoedion'. Below it is a button labeled 'Gwybodaeth am y Categori'. On the right side of the form, there is a section titled 'Colofnau a Ddewiswyd:' with the instruction 'Rhowch y pwysau canran ar gyfer pob eitem. Dylai’r canrannau adio i 100 y cant.' Below this is a text input field containing '\* % Colofn: PS11420 Coursework Essay'. At the bottom right, there is a progress indicator 'Cyfanswm Pwysol: 0%'.

- Nodwch ganran bwysoli pob un o’r elfennau (dylai hyn wneud cyfanswm o 100%).
- O dan **OPSIYNAU > Dangos y Golofn hon i Fyfyrrwyr > ticiwch Na**
- Cliciwch ‘**Cyflwyno**’

## CYFLWYNIADAU GRWPIAU SEMINAR / ESTYNIADAU

Os rhennir y myfyrrwyr yn grwpiau a bod ganddynt bwyntiau cyflwyno gwahanol i’r un aseiniad, neu os oes pwnt cyflwyno ar gyfer estyniadau.

Ewch i **Canolfan Raddau > Canolfan Raddau Lawn > Creu Colofn Gyfrifedig > Cyfanswm Colofn**

## Creu Colofn Gyfrifedig ~

Colofn Gyfartalog

Lleiafswm/Uchafswm Colofn

Cyfanswm Colofn

Colofn Bwysol

- Rhowch enw i'r golofn ac o dan **Prif Arddangosiad** dewiswch **Canran**
- Yn **DEWIS COLOFNAU** > dewiswch bob colofn ar gyfer yr un gydran a gwasgu'r saeth.

### DEWIS COLOFNAU

*Dewiswch Pob Colofn Raddio er mwyn cynnwys pob colofn raddio yn y cyfanswm. Os oes Cyfnodau Graddio yn bodoli, cyfyngu'ch ar y colofnau sy'n cael eu cynnwys colofnau neu gategoriâu penodol yn y cyfanswm, dewiswch Colofnau a Chategoriâu Dethol.*

**I'w cynnwys yn y Cyfanswm**

- Pnh Calfn Raddio
- Colofnau a Chategoriâu Dethol

The screenshot shows a web interface for selecting columns. On the left, there are two scrollable lists: 'Colofnau i'w Dewis' (Columns to be included) and 'Categoriâu i'w Dewis' (Categories to be included). The 'Colofnau i'w Dewis' list contains 'Cyfanswm Pwysol', 'Cyfanswm', 'PS11420 coursework essay', and 'PS11420 Alternative Assessment Jan 2018 Subtr'. The 'Categoriâu i'w Dewis' list contains 'Aseiniad', 'Arolwg', 'Prawf', 'Trafodaeth', 'Blog', 'Dyddlyfr', and 'Hunanasesu ac Aseu Cyfoedion'. On the right, there is a 'Colofnau a Ddewiswyd' (Columns and Categories Selected) list containing 'Colofn: PS11420 Coursework Essay'. There are arrows between the lists to indicate moving items between them.

- Nodwch ganran bwysoli pob un o'r elfennau (dylai hyn wneud cyfanswm o 100%).
- O dan **OPSIYNAU** > **Dangos y Golofn hon i Fyfyrrwyr** > ticiwch **Na**
- Cliciwch '**Cyflwyno**'

## EXAM MARKS

Gallwch greu colofn Canolfan Raddau arholiadau a theipio'r marciau yn y golofn.

- Ewch i **Canolfan Raddu Lawn** > **Creu Colofn**
- Rhowch enw i'r golofn ac o dan **Prif Arddangosiad** dewiswch **Canran**
- O dan **OPSIYNAU** > **Dangos y Golofn hon i Fyfyrrwyr** > ticiwch **Na**
- Cliciwch '**Cyflwyno**'

**Sylwer:** Dylech hefyd guddio'r golofn Cyfanswm oddi wrth y myfyrrwyr fel na allant gyfrifo'u marc yn yr arholiad:

Cliciwch ar y saeth fach nesaf at y golofn rydych am ei chuddio > **Golygu Gwybodaeth am y Golofn**> **Dangos y Golofn hon i Fyfyrrwyr**> ticiwch **Na**.